LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Tachwedd / Rhagfyr 2025 Cyfrol 96 Rhif 6

## *Cân Mair*

*46 A dyma Mair yn ymateb:*
*“O, dw i’n moli’r Arglwydd!*
*47 Mae Duw, fy Achubwr, wedi fy ngwneud i mor hapus!*
*48 Roedd yn gwybod bod ei forwyn yn ferch gyffredin iawn,*
*ond o hyn ymlaen bydd pobl o bob oes*
*yn dweud fy mod wedi fy mendithio,*
*49 Mae Duw, yr Un Cryf, wedi gwneud pethau mawr i mi –*
*Mae ei enw mor sanctaidd!*
*50 Mae bob amser yn trugarhau wrth y rhai sy’n*
*ymostwng iddo.*
*51 Mae wedi defnyddio’i rym i wneud pethau rhyfeddol! –*
*Mae wedi gyrru y rhai balch ar chwâl.*
*52 Mae wedi cymryd eu hawdurdod oddi ar lywodraethwyr,*
*ac anrhydeddu’r bobl hynny sy’n ‘neb’.*
*53 Mae wedi rhoi digonedd o fwyd da i’r newynog,*
*ac anfon y bobl gyfoethog i ffwrdd heb ddim!*
*54 Mae wedi helpu ei was Israel,*
*a dangos trugaredd at ei bobl. 55 Dyma addawodd ei*
*wneud i’n cyndeidiau ni –*
*dangos trugaredd at Abraham a’i ddisgynyddion am byth.”*

*Luc 1 adnod 46-55 beibl.net*





## *Gair gan y Gweinidog*

Ers yr haf mae'r amser yn teimlo fel pe bai wedi rhuthro heibio yn eithriadol o gyflym. Aeth Medi, Hydref a Thachwedd fel gafr ar daranau, neu fel yr hen gath i gythraul. A dyma ni bellach yn cyrraedd tymor yr Adfent unwaith eto. Uchafbwynt i ni fel teulu yn ystod y cyfnod hwnnw oedd geni Jos Elvis, mab i Lowri a Will ac ŵyr cyntaf i Vikki a minnau. Diolchwn i'r Arglwydd am y fraint aruthrol hon o fod yn nain ac yn daid. Ni allwn smalio bellach ein bod yn ifanc, rhaid ildio i gerddediad amser a chydio yn ein cyfrifoldebau dros yr un bychan.


Hoffem ddiolch i chi am eich holl ddymuniadau da a chardiau ac am eich caredigrwydd yn rhoi rhoddion i Jos.

Dros gyfnod yr hydref digwyddodd llawer eto yn hanes Ebeneser, a diolch i chi am eich ffyddlondeb a'ch brwdfrydedd dros waith ei deyrnas. Y mae gwaith tîm Ebeneser gyda'r Gornel Glyd yn rhagorol a gwerthfawrogwn ymdrech pob un sy'n gwirfoddoli. Braint oedd cael bod yn oedfa gomisiynu Gwilym Jeffs fel arweinydd yn Angor Grangetown, ym mis Medi a chael bod yn rhan o'r cyffro hwnnw. Diolchwn i'r Arglwydd amdano a'n bod ni fel cynulleidfa mewn sefyllfa, mewn cydweithrediad gydag Undeb yr Annibynwyr, i'w gyflogi dau ddiwrnod yr wythnos. Pob bendith a llwyddiant i griw Angor yn ystod y misoedd nesaf.

Un elfen hanfodol yn ein tystiolaeth ar hyn o bryd yw ein gwaith gyda phlant a theuluoedd. Y gwir yw mai ychydig o deuluoedd ifanc sy'n ymuno gyda ni yn yr Eglwys Newydd ar hyn o bryd. O ganlyniad mae'n rhaid inni addasu a cheisio cynnal gweithgareddau sy'n addas ar eu cyfer, gan fod yn enillgar. Dyma pam fod Llanllanast ac Agor y Llyfr mor bwysig, oherwydd ein bod trwyddynt yn ymwneud â theuluoedd a phlant ifanc. Yn ystod mis Rhagfyr fe fydd Ffrindiau Bach, menter newydd o dan arweiniad Rachel Jones, yn cychwyn yng nghapel y Methodistiaid ar fore Mawrth. Sesiynau fydd y rhain ar gyfer plant bach mân a'u gofalwyr. A allwch chi wneud 2 beth fel rhan o'n cenhadaeth. 1. Gweddïo dros y gwaith, gan ofyn i'r Arglwydd fendithio a pheri llwyddiant. 2. Os gwyddoch am unrhyw deuluoedd gyda phlant bach, gwahoddwch hwy i'r gweithgarwch.

Edrychaf ymlaen at gael dathlu gŵyl y geni gyda chi a'r hyfrydwch o lawenhau fod y Meseia Iesu wedi dod i'n plith yn Waredwr.

"Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,  
a deued pawb ynghyd  
i'w dderbyn a'i gydnabod ef  
yn Geidwad i'r holl fyd……"



**1826 – 2026**

Yn 2026 fe fydd Ebeneser yn dathlu ei phen-blwydd yn 200 oed fel eglwys. Y mae gweithgor wedi bod yn trefnu ar gyfer y dathlu ac y mae'r darnau yn syrthio i'w lle. Bwriadwn gynnal rhyw 4 o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i nodi'r achlysur. Rydym wedi neilltuo Sul 1af Mawrth fel Sul y dathlu oherwydd mai yn y mis hwnnw y daeth 26 o bobl ynghyd i gorffori'r eglwys mewn coety ar Westgate Street. Yna, ym mis Mehefin bydd taith gerdded o Womanby Street i Cornerstone ar Heol Siarl. Yno bydd cyfle i rannu peth o'r hanes a chael te gyda'n gilydd. Ar y gweill hefyd y mae cyngerdd dathlu a phryd o fwyd. Edrychwn ymlaen at ddathlu ein pen-blwydd fel cynulleidfa.

**Cyfraniadau**

Hoffem fynegi ein diolch i chi fel aelodau am eich cyfraniadau cyson tuag at waith yr Eglwys. Gan nad ydym, ers Cofid, wedi cynnal casgliad ariannol yn ein cyfarfodydd mae'n rhwydd anghofio pa mor hanfodol yw eich haelioni chi tuag at waith Teyrnas Dduw yma yng Nghaerdydd.

---

## ADFENT - YR AILDDYFODIAD

**R.Tudur Jones, 1921-98, Gweddïo, 1992**

Gostwng dy glust, ein Duw grasol, i wrando ar ein hymbiliau wrth inni alw i gof addewidion gwerthfawr ein Harglwydd Iesu Grist i ddod drachefn yn ei ogoniant i'n byd ni.

Daeth i'n plith ni gyntaf yn ddarostyngedig, ar agwedd gwas.

Yn ei ailddyfodiad fe ddaw yn ei holl ogoniant gyda'r angylion sanctaidd.

Y tro cyntaf daeth mewn dull fel dyn, a hawdd y gallai pobl fethu ei adnabod.

Pan ddaw yr eildro, ni bydd amheuaeth pwy ydyw.

Deisyfwn arnat feithrin ynom hiraeth am weld y diwrnod mawr hwnnw'n dod. Amddiffyn ni rhag i atyniadau a phrysurdeb y byd hwn bylu'r hiraeth. Y mae'r Arglwydd Iesu wedi'n rhybuddio ni i fod yn barod, fel y morynion yn ei ddameg, gydag olew yn ein lampau pan ddaw'r Priodfab i'r wledd. Gwna ni'n bobl barod, oherwydd fe ddaw ei ddiwrnod fel lleidr yn y nos ac ni fynnem fod yn cysgu pan ddaw. A phar i'r gobaith godidog am ei weld yn dod yn ei holl ogoniant ein diogelu ni rhag pesimistiaeth a digalondid. Os digwydd inni orfod dioddef ein difenwi a'n camfarnu, ein gorthrymu a'n cam-drin, rho ras inni barhau'n ffyddlon hyd yr awr pan ymddangoso'r Brenin. Gyda'r Eglwys trwy'r byd ymbiliwn, `Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.'

## Adfent - Bachgen a anwyd…



Yn nhymor yr Adfent mae'n hyfryd clywed y darlleniadau cyfarwydd. Mae yna gysur ynddynt a naws gyffyrddus. Ond gallwn fynd yn rhy gyfarwydd fel bod y darlleniadau "Nadoligaidd" yn colli eu hystyr a'u gwefr. Ystyriwch eiriau Eseia ym mhennod 9, a rhyfeddod yr hyn a ddywedant. A ydym ni, yr Adfent hwn wedi eu clywed cymaint o weithiau fel nad ydynt yn cael unrhyw effaith arnom? Ynddynt y mae rhyfeddod yr ymgnawdoliad a chynnwrf dyfodiad Iesu'r Meseia.

> "Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr;
> y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew
> a gafodd lewyrch golau." ***Eseia 9:2***

Cyfeirio roedd Eseia yn rhannol yn yr ail adnod at sefyllfa pobl Dduw yn cael eu concro gan y gelynion. Roedd hi'n gyfnod tywyll iawn yn eu hanes. Ond fe fyddai goleuni llachar yn llewyrchu arnynt yn y man. Roedd yn broffwydoliaeth o obaith iddynt hwy ond hefyd yr oedd yn darogan dyfodiad y Meseia Iesu.

Mae dynoliaeth yn rhodio yn y tywyllwch, yn cerdded o'r naill argyfwng i'r llall. Mae tywyllwch colledigaeth, rhyfel, trais a chasineb yn cau amdanom. Mae pobl yn ymbalfalu am ystyr a gobaith ond yn methu ei gael yn y byd. Yn yr Iesu daeth goleuni llachar gras Duw i gynnig achubiaeth a gobaith. Yn yr adnodau dilynol, fe gawn ddisgrifiad proffwydol bendigedig ohono yn adnod 6. "Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon".

### Bachgen a aned i ni, mab a roed i ni.

Ganwyd Iesu i fyd o dywyllwch. Byd y dagrau a'r salwch, yr ymladd a'r difetha, y newyn a'r tlodi. I ganol ein tywyllwch daeth goleuni Iesu, mab Duw, yn fynegiant o gariad anorchfygol. Yn rhyfeddol, daeth yr Iesu i'r byd er ein mwyn ni, ddynoliaeth anhaeddiannol, oherwydd bod Duw yn ein caru ni yn aruthrol ac am ein hachub. Ac wrth gwrs yma cyflwynir Iesu fel "mab Duw". Rhoddodd Duw ei fab ei hun yn rhodd dragwyddol. Pan welwn blentyn bach newydd anedig, nid ydym yn meddwl am rym a nerth ond yn hytrach person di-rym sy'n gwbl ddibynnol ar eraill. Ond fel hyn y daeth Duw i'r byd mewn baban bach bregus, diamddiffyn. Gwyrth yr oesoedd yw hyn.

“Ymhlith holl ryfeddodau’r nef
hwn yw y mwyaf un,
gweld yr anfeidrol ddwyfol fod
yn gwisgo natur dyn. “


Yna yn Eseia 9 rhoddir pedwar disgrifiad o’r Meseia.

**1. Cynghorwr rhyfeddol**. Mae hyn yn awgrymu doethineb dwyfol. Nid cynghorwr dynol mo hwn, ond un sy’n dod oddi wrth Dduw ei hun, yn llawn dirnadaeth a gras.

**2. Duw cadarn.** Mae’r plentyn hwn yn fwy na dyn; mae’n cael ei alw’n Dduw, ac yn un sydd â nerth i achub, amddiffyn a llywodraethu. Dyma wyrth yr ymgnawdoliad. Rhyfeddodd Ann Griffiths gan ganu,

“Mae’n ddyn i gydymdeimlo a’n holl wendidau i gyd,
Mae’n Dduw i gario’r orsedd ar ddiafol, cnawd a byd.”

**3. Tad bythol**. Yma mynegir ei fod fel tad gofalgar, sy’n dod â sefydlogrwydd a sicrwydd tragwyddol. Mae’n awgrymu perthynas agos a pharhaol rhwng Duw a’i bobl.



4. **Tywysog heddychlon**. Mae’n dod â heddwch, nid yn unig rhwng pobl, ond rhwng dynoliaeth a Duw. Mae ei deyrnas yn seiliedig ar heddwch, nid ar rym milwrol. Ni chododd yr Iesu arf erioed i ladd neb. Ni ddysgodd ei ddisgyblion i godi arfau nac i ymladd dros ei achos. I’r gwrthwyneb: fe fu fyw bywyd di-drais gan ddysgu ei ddisgyblion i wneud yr un modd. Dywedodd Iesu, “Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi.

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon,
a pheidiwch ag ofni. (Ioan 14:27)

Mae’r teitlau hyn yn rhoi disgrifiad i ni o’r Meseia Iesu. Mae ynddo ddirgelion mawr na allwn eu plymio. Ond o ddeall pwy ydyw a chredu, gallwn ymddiried ynddo a rhoi ein bywydau yn llwyr yn ei ddwylo. I lawer heddiw nid yw’r Nadolig ond un sbloets fawr o wario, prynu, yfed a bwyta. Ond i ni fel Cristnogion y mae’n dymor o ddathlu fod ein Harglwydd wedi ei eni i dywyllwch y byd er mwyn dod ag iachawdwriaeth. Llawenhawn.


# NEWYDDION

**Bore coffi**

Cynhaliwyd bore coffi ar gyfer Y Samariaid, ein helusen am y flwyddyn nesaf, yn nhŷ John a Bethan Hayes ar ddydd Sadwrn 4ydd o Hydref. Dyma hefyd ddiwrnod penblwydd Malcolm Thomas yn 89 oed. Roedd yna ddigon o gacennau i allu dathlu gyda fe, a chanu penblwydd hapus iddo. Llwyddwyd i godi £500.

**Cyfarfodydd Pregethu**

Ar 12fed o Hydref cawsom groesawu Dr Cynan Llwyd i'n plith. Ers bron i flwyddyn a hanner mae Cynan wedi bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Cawsom flas ar ei brofiadau hyd yn hyn a phwysleisiodd fod y cydweithio rhwng enwadau a sefydliadau yn galonogol. Yn y bore aeth i Salm 14, gan edrych ar bedwar pen sef; Y Ffŵl, Y Ffyddlon, Gwaredwr, a Noddfa. Yn y pnawn aeth â ni i Marc 9 a hanes y bachgen oedd yng ngafael cythraul. Eto roedd ganddo bedwar pen ar yr hyn yw e i gredu sef; Y Meddwl, Calon, Gweithredoedd, a Gwrogaeth.



Diolch iddo am ddwy bregeth arbennig iawn. Gallwch wrando arnynt drwy fynd i Soundcloud.com a dewis Ebeneser Caerdydd.

**Angor**

Ar bnawn Sul, 28ain o Fedi comisiynwyd Gwilym Jeffs yn arweinydd yn Angor, Grangetown, mewn gwasanaeth hynod o fendithiol. Roedd yr eglwys yn llawn yng nghwmni aelodau Angor, Ebeneser, ffrindiau, a theulu. Pob bendith iddo. Bydd yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos fel arweinydd Angor a thridiau fel athro Saesneg.



**Llan Llanast**

Bu'n fore difyr a bywiog yn Llan Llanast fore Sul 19eg o Hydref yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Iesu'n iachau 10 person gwahanglwyfus oedd y testun. Roedd y crefftau i gyd yn seiliedig ar yr hanes. Diolch am iechyd.

Diolch am fwyd a diod oedd thema Llan Llanast fore Sul 16eg o Dachwedd gyda'r plant yn dilyn hanes Duw yn darparu manna, soflieir a dŵr i Moses a'r Israeliaid yn yr anialwch. Yn y lluniau ar y dudalen nesaf fe welwch rai o grefftau'r bore.  Diolch i bawb ddaeth i fwynhau ac i bawb fu'n rhan o drewfnu'r ddau gyfarfod.


Llan Llanast

# Hydref a Tachwedd















Sgrin-lun o fideo gan Saddleback .com

Llan Llanast

**Nesaf**

**21 Rhagfyr - 10:00yb**
**Canolfan yr Eglwys Newydd**
**Llan Llanast i bawb - 'Diolch am Iesu'**

**Carreg Filltir**!
Ar 4ydd o Dachwedd dathlodd Enfys Harding benblwydd arbennig! Bydd rhaid ichi ddyfalu beth oedd hwnnw! Bu'n dathlu gyda'r teulu a chyda ffrindiau.

**Newydd ddyfodiad**
Llongyfarchiadau twymgalon i Lowri a Will Tudur-Eveleigh ar enedigaeth Jos Elvis ar 11eg o Dachwedd. Dymuniadau gorau a phob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol, ac i Alun a Vikki Tudur, yn daid a nain am y tro cyntaf.

**Penblwydd Hapus...**
..i Megan Williams ar ddathlu ei phenblwydd yn 94 mlwydd oed ar 17eg o Dachwedd. Dymuniadau gorau iddi hefyd wrth iddi barhau i wella ar ôl cyfnod o salwch yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau...**
...i Cian Llŷr Rosser ar ennill Gradd Meistr mewn Gwleidyddiaeth. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Ffrindiau Bach**
Mae Ebeneser yn cychwyn cylch Ffrindiau Bach iaith Gymraeg yng nghapel y Methodistiaid yr Eglwys Newydd ar fore Mawrth yr 2ail o Ragfyr o 9.30 – 11.00. Croeso cynnes i blant bach a'u gofalwyr. Chwarae, caneuon a dishgled. *(Poster ar dudalen 10).*

**Cydymdeimlad**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Rhian Ruddock, Rhiwbeina, ar 24ain o Dachwedd yn 90 oed. Pob cydymdeimlad gyda'r teulu yn eu colled, yn enwedig y merched, Meinwen a Gwennan a'r wyresau. Cynhelir ei hangladd am 11.30 ddydd Mawrth 16eg o Ragfyr yng nghapel y Wenallt, Thornhill. Coffa da amdani.

**Catrin Young a Goalball UK**
Ymddangododd erthygl ddiwedd mis Medi ym mhapur yr 'Echo'. Dyma gyfieithiad o'r erthygl honno, sy'n sôn am wyres Rhian Ruddock. Diolch i Mair Hughes am dynnu ein sylw at yr erthygl.

*Bydd merch yn ei harddegau o Gaerdydd yn cynrychioli Prydain Fawr mewn twrnamaint chwaraeon rhyngwladol yr wythnos nesaf.*

*Catrin Young, o Gaerdydd, yw'r aelod ieuengaf o garfan chwech o Ferched Goalball UK sy'n cymryd rhan ym Mhencampwriaethau Ewrop yn y Ffindir, a gynhelir o Fedi 28 i Hydref 6.*

*Bydd gêm agoriadol y tîm yn erbyn Twrci, a gydnabyddir fel un o'r timau menywod gorau, a bydd teulu Catrin yn gwylio'n falch trwy ffrydio byw ar YouTube.*

*Cyflwynwyd Catrin, sydd â cholled golwg, i Goalball mewn diwrnod blasu chwaraeon para ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd tua naw mlynedd yn ôl ac mae wedi bod yn chwarae'n lleol byth ers hynny.*



*Mae'r gamp gyflym yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr wisgo rhwymyn llygaid, sy'n sicrhau maes chwarae teg.*

*Mae Catrin wedi bod yn paratoi ar gyfer y twrnamaint sydd i ddod trwy deithio i Sheffield ar gyfer sesiynau hyfforddi misol gyda'r garfan.*

*"Bydd gennym ddau ddiwrnod o hyfforddiant allan yn y Ffindir ac yna byddwn yn chwarae tua dwy gêm y dydd," meddai Catrin.*

*Mae Catrin wedi bod yn byw'n annibynnol ers pan oedd hi'n 16 oed, gan astudio ar gyfer Lefel A yng Ngholeg Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yn Henffordd. Mae hi'n dechrau gradd cerddoriaeth yng Ngholeg Celfyddydau Henffordd gerllaw.*

*Mae hoff offerynnau Catrin yn cynnwys drymiau a gitâr, ac mae hi'n hyderus y bydd ei dyfodol mewn cerddoriaeth.*

*"Rwyf am droi'n broffesiynol gyda Goalball, ond rwyf am iddo fod ar wahân i waith," meddai. "Mae'n hwyl ac yn gyffrous, nid dim ond swydd."*

*Yn aros yn amyneddgar gartref yng Nghymru bydd y ci cyfaill Rivers, a ymunodd â'r teulu o Guide Dogs yn 2021.*

*"Fe yw'r ci cyntaf i'n teulu erioed ei gael ac mae wedi ffitio i mewn yn dda," meddai Catrin.*

*"Mae wedi gwneud i mi feddwl am gael ci tywys yn y dyfodol, nawr rwy'n gwybod y gallaf ofalu am gi. Mae'n hoffi bod yn agos iawn ataf drwy'r amser rwyf yma."*

*Nid yw Catrin erioed wedi gadael i golli golwg ei dal yn ôl. Dywedodd: "Oherwydd i mi gael fy ngeni ag e, dydw i ddim yn gwybod dim gwahanol. Weithiau dw i'n teimlo'n rhwystredig oherwydd ei fod fod yn cymryd ychydig yn hirach i wneud rhywbeth, ond pan dw i'n amyneddgar, ac yn derbyn y gefnogaeth gywir, dw i'n gallu cyflawni popeth y gall unrhyw un arall ei gyflawni."*

Llongyfarchiadau i'r tîm merched ar ddod yn bumed, yn dilyn perfformiad cryf a chynnydd da, sy'n dangos eu bod yn gystadleuol. Er na chafodd tîm y dynion gystal llwyddiant roedd yn garreg filltir dda yn eu taith tuag at y gemau Paralympaidd yn 2028.







## ***Rhown foliant o'r mwyaf***

*Rhown foliant o'r mwyaf*
*i Dduw y Goruchaf*
*am roi'i Fab anwylaf*
*yn blentyn i Fair,*
*i gymryd ein natur*
*a'n dyled a'n dolur*
*i'n gwared o'n gwewyr anniwair.*

*Fe gymerth ein natur,*
*fe'n gwnaeth iddo'n frodyr,*
*fe ddygodd ein dolur*
*gan oddef yn dost;*
*fe wnaeth heddwch rhyngom*
*a'i Dad a ddigiasom,*
*fe lwyr dalodd drosom y fawrgost.*

*Fe'n gwnaeth ni, blant dynion,*
*yn ferched, yn feibion,*
*i'w Dad yn 'tifeddion*
*o'r deyrnas sydd fry,*
*i fyw yn ei feddiant*
*mewn nefol ogoniant*
*er mawrglod a moliant i'r Iesu.*

*Gwahoddwch y tlodion*
*a'r clwyfus a'r cleifion*
*a'r gweiniaid a'r gweddwon*
*â chroeso i'ch gwledd;*
*o barch i'r Mesïas*
*a'n dwg ni i'w deyrnas*
*i gadw gŵyl addas heb ddiwedd.*



**RHYS PRICHARD, 1579?-1644**
***(Caneuon Ffydd 469)***

## *Her Newydd i ni fel eglwysi*



Nos Fercher, Hydref 15fed cynhaliwyd cyfarfod yn Eglwys Gadeiriol Llandaf o dan y teitl “Cymru a’r Gair”, wedi ei drefnu gan Siân Wyn Rees (Trefnydd Cymdeithas y Beibl yng Nghymru). \Da oedd gweld cynrychiolaeth dda o blith yr enwadau Cymraeg yn bresennol, er mai cyfarfod Saesneg oedd hwn i bob pwrpas. Roedd yn cael ei hysbysebu fel “dathliad o waith Cymdeithas y Beibl yng Nghymru.”



Cyflwynodd Dr Andrew Ollerton ddau adnodd sy newydd eu rhyddhau ganddo; sef y “Bible Course” ar ei newydd wedd (i’w ryddhau yn y Gymraeg yn y flwyddyn newydd), a llyfr arall ganddo sy’n edrych ar “saith pwnc anoddaf y Beibl”, sef “God’s Book”

Cafwyd cyflwyniadau gan Dai Woolridge o’i farddoniaeth lafar ogleisiol a heriol. Soniwyd am lwyddiant yr Ap ffonau symudol Cymraeg, Ap Beibl, a’r llu o adnoddau sydd arno bellach. Ond efallai mai’r prif ffocws oedd y ‘Diwygiad Tawel’. Yn 2018 ac eto yn 2024 defnyddiodd Cymdeithas y Beibl YouGov i ymchwilio i sefyllfa’r eglwysi Cristnogol yng Nghymru a Lloegr. Holwyd dros 19,000 o unigolion am eu harferion yn mynychu eglwysi, darllen y Beibl, gweddïo, a’u hagweddau cymdeithasol, ac mae’r canlyniadau wedi bod yn annisgwyl a dweud y lleiaf. Yn ystod y pum mlynedd gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy’n mynychu addoliad, yn arbennig ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 24 mlwydd oed: dynion ifanc yn bennaf. Yr eglwysi Pentecostaidd a’r eglwys Gatholig sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf. Mae cynnydd hefyd wedi bod yn nifer y bobl sy’n darllen y Beibl yn rheolaidd ac yn gweddïo.



Ond roedd heriau hefyd. Mae traean o’r bobl ifanc a holwyd yn cyfaddef eu bod yn cael trafferth i ddeall a dehongli rhannau o’r Beibl. Felly mae’n amlwg bod yr adnoddau newydd y soniais amdanynt uchod yn hynod bwysig. Roedd her i ninnau Gristnogion hŷn hefyd, i fod yn bobl sydd yn gallu helpu’r genhedlaeth newydd o gredinwyr i ddeall a byw yr hyn sydd yn yr Ysgrythur. Defnyddiodd Andrew Ollerton hanes Philip a’r Ethiopiad yn Llyfr yr Actau i gyflwyno’r her hon i’r eglwysi. Cwestiwn yr Ethiopiad oedd, “Sut alla i ddeall heb i rywun ei esbonio i mi?”

Roedd rhywun yn gadael y cyfarfod yn ymwybodol iawn fod yna symudiad newydd ar droed, ond yn gorfod gofyn “Ydyn ni fel eglwysi ac enwadau Cymraeg yn agored ac yn barod ar gyfer y newidiadau hyn?”

## Agor Canolfan Newydd

Roedd cynulleidfa niferus wedi ymgynnull yng Nghapel y Crwys, pnawn Sul Hydref 26ain, i ddathlu datblygiad cyffrous newydd ar y safle.

Mae'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill wedi ei ail strwythuro ac wedi derbyn y Stafell Fyw; Cynnal, a Lle i Fyw (ar lein) fel partneriaid

**Cyflwyniadau**

Cafwyd anerchiad dadlennol gan yr Athro a'r Fonesig Ilora Finlay o Landaf, yn nodi ffigyrau brawychus am effaith alcohol ar y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Cafwyd negeseuon cefnogol gan noddwyr eraill Stafell Fyw: Megan Jones, Lleuwen Steffan, a'r Farwnes Elan Closs Stephens, a hefyd cyfraniadau gan rai sydd wedi profi adferiad trwy gymorth a gofal cariadus y 'Stafell Fyw'.

Esboniwyd cefndir y datblygiad newydd hwn gan y Parch Denzil John (Cadeirydd y Cyngor). Diolchwyd i Henaduriaeth Morgannwg Llundain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, am ei chefnogaeth i Eglwys y Crwys, i'w galluogi i drawsnewid rhan o'r adeilad, a hefyd am ei grant o £25k i'r Stafell Fyw, er mwyn cychwyn y gwaith yn y lleoliad newydd.


Y Stafell Fyw yn Eglwys y Crwys

Wrth gyfarch y gynulleidfa dywedodd Arwel Ellis Owen (Cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw) mai rôl y Stafell Fyw yw gweithredu fel canolfan adfer yn y gymuned. Bydd cymorth ar gael i unrhyw un ag unrhyw fath o ddibyniaeth gan groesawu unrhyw un sydd angen cymorth.

Mae'r cymorth ar gael mewn sesiynau un wrth un, wyneb yn wyneb, neu'n rhithiol, a hefyd mae cyfle i rai barhau eu hadferiad trwy fod yn rhan o grwpiau naill ai wyneb yn wyneb neu ar lein, grwpiau sy'n cyfarfod mewn gwahanol rannau o Gymru yn ôl y galw. Mae'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, heb derfyn amser, ac yn rhad ac am ddim. Gwnaeth apêl am gymorth ariannol oherwydd bod angen tua £35,000 bob blwyddyn i gynnal y gwaith arloesol hwn.

Yn ei gyfraniad ef cyfeiriodd Wynford Ellis Owen (Prif Weithredwr) at enghreifftiau penodol o'r rhai sydd wedi derbyn cymorth, ac yn wir dros y blynyddoedd mae'r Stafell Fyw, yn llythrennol, wedi arbed bywydau llawer, ac wedi cynorthwyo degau o bobl i brofi adferiad llwyr.

I barhau'r dathlu cafwyd lluniaeth helaeth yn y festri drwy garedigrwydd chwiorydd y Crwys a mynychwyr y Stafell Fyw.

**Cysylltu**

Gwefan: www.stafell-fyw.uk. E bost: wynford@recovery-council.org. Ffôn: 07796 464045. Cyfeiriad: Eglwys Y Crwys 77, Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3AR. Mae croeso i unrhyw un ymweld â'r Stafell Fyw.

**Cymanfa Ganu**

Ar Nos Sul Hydref 26ain cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais i ddathlu'r lansiad. Eto roedd cynulleidfa niferus yn bresennol a chafwyd canu ysbrydoledig dan arweiniad Eilir Owen Griffiths gyda David Geoffrey Thomas wrth yr organ. Agorwyd y Gymanfa gan John Derek Rees a dystiolaethodd i gyfraniad clodwiw Wynford drwy Cynnal (y gwasanaeth i Weinidogion, Clerigwyr a Gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd) i'w adferiad personol ef ei hun. Cafwyd eitemau gwefreiddiol gan Gôr Hen Nodiant; Côr Ifor Bach a Chôr Aelodau Eglwys Bethlehem Gwaelod y Garth.

**Cefnogaeth Ariannol**

Fel yn lansiad y pnawn, gwnaethpwyd casgliad. Derbyniwyd yn agos i £2k mewn rhoddion yn ystod y dydd ac mae'r Trysorydd yn hynod o ddiolchgar am y rhoddion a dderbyniwyd eisoes trwy wahanol ffynonellau. Mae angen dybryd am gefnogaeth ariannol sylweddol ar y Stafell Fyw. Os oes gennych unrhyw gysylltiadau â mudiadau neu elusennau ac am drafod sut y gallwch gefnogi, byddai Wynford yn falch iawn o glywed gennych. Neu os ydych am roi rhodd bersonol dyma fanylion banc y Stafell Fyw. Diolch am bob cyfraniad.

**Banc Metro**

| | |
|---|---|
| Côd Didoli: | 23-05-80 |
| Enw'r Cyfrif: | CACE / CAOD |
| Rhif y Cyfrif: | 54892675 |
| Math o gyfrif: | Busnes |
| Cyfeirnod: | Enw'r Rhoddwr |



# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

## *Tymor y Nadolig*

Mae hi wedi bod yn dymor prysur gyda sawl menter newydd a chyffrous yn dechrau. Rydym wedi cychwyn 'Angor Acwstig' sydd yn wasanaeth mwy anffurfiol gydag amser o addoliad, astudiaeth Beibl a thrafodaeth grŵp. Rydym hefyd wedi cynnal Llan Llanast diolchgarwch ac yn mynd i gynnal Llan Llanast adfent mis nesaf.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus ac am eich gweddïau.

Dyma rai pwyntiau penodol rydym yn diolch i Dduw amdanynt ac yn gweddïo i'r dyfodol.

Diolch i Dduw am: Cyfarfodydd Angor 'Acwstig' a Llan Llanast sydd wedi bod ymlaen bob yn ail, ar Suliau cyntaf y mis.

Teuluoedd ac unigolion yn parhau i ddod ac yn cyd-addoli.


Grŵp merched sydd yn cyfarfod yn rheolaidd.

Treialu Clwb Tots: mae wedi bod yn hyfryd gweld wynebau newydd rhieni a phlant.




Cyfleoedd i unigolion newydd arwain drwy addoliad, grwpiau ac astudiaethau.

Ymunwch gyda ni i weddïo am:
Digwyddiadau'r Nadolig gan gynnwys:
Llan Llanast,
Carolau yn nhafarn y Grange,
a Gwasanaeth Carolau.




Am wynebau newydd i ymuno gyda ni ac i rai o'r ardal sydd ddim eto yn nabod Iesu i'w gyfarfod a'i adnabod.



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Pob nos Lun am 7.30 y.h. cynhelir y cwrdd gweddi yng Nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

Cynhelir 'Y Cylch' bob yn ail ddydd Mawrth, yng Nghaffi'r Roundabout, Yr Eglwys Newydd, rhwng 10:30yb ac 11:30yb.

Cynhelir Angor ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:00yp. Cyfarfodydd eraill yn ystod y mis - Angor Acwstig, Cwrdd Gweddi, Grŵp Merched a Chlwb Tots.

## Suliau Rhagfyr

**7 Rhagfyr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**14 Rhagfyr** - 10:00yb yn CEN - Gwasanaeth Cymorth Cristnogol.
3:00yp yn EF - Carolau, paned a chacen yn y festri.
**21 Rhagfyr** - 10:00yb yn CEN - Llan Llanast i bawb. 'Diolch am iechyd'.
3:00yp yn EF - Oedfa ddwyieithog gyda chynulleidfa'r Eglwys Fethodistaidd.
**25 Rhagfyr** - 9:30yb yn EF - Gwasanaeth bore dydd Nadolig.
**28 Rhagfyr** - Gwasanaeth ddigidol..

## Suliau Ionawr 2026

**4 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**11 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**18 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**25 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur

**Cyfraniadau i'r Llusern.**

Os oes rhywbeth hoffech chi ei weld yn Y Llusern neu os oes ganddoch chi gyfraniad ar gyfer Y Llusern, e.e. hoff emyn a pham neu hoff adnod a pham, cysylltwch ag un o'r tîm golygyddol, Alun, Petra, Janette neu Tudur.

**Ebeneser - "Hyd yma y cynorthwyodd yr ARGLWYDD ni."**

# Nadolig Llawen Fendithiol

# a

# Blwyddyn Newydd Heddychlon yn 2026